Newyddion
Rhagfyr 2004

Cynhaliwyd digwyddiad cyntaf Rhwydwaith Mentrau Cymdeithasol Wrecsam (RhMCW) ar 6ed Rhagfyr yng Nghanolfan Adnoddau Llay. Er gwaethaf y byr rybudd wrth drefnu'r digwyddiad a'r amseriad cyn y Nadolig roedd dros 30 o gynrychiolwyr o sefydliadau lleol a swyddfeydd datblygu cymunedol yn bresennol.

Agorwyd y cyfarfod gan Sasha Hughes, y Swyddog Datblygu Economi Cymdeithasol gydag amlinelliad o beth yw menter gymdeithasol a rôl y tîm economi cymdeithasol h.y.:

Annog diwylliant o Entrepreneuriaeth cymdeithasol a gweithredu a rheoli rhaglen i gefnogi datblygiad economi gymdeithasol gref y gall mentrau cymdeithasol ffynnu ynddo.

Rhoddwyd diweddariad ar y camau i gynllunio ymchwil sydd ar waith a hyd yn hyn amlygwyd bod gan 400 allan o tua 2,500 o'r sefydliadau ar y gronfa ddata wreiddiol y potensial a'r strwythur i gynhyrchu incwm o ganlyniad i fasnachu, o leiaf yn rhannol drwy nwyddau a gwasanaethau h.y. dod yn fenter gymdeithasol. Cynhelir ail ran yr ymarferiad o fis Ionawr 2005 ymlaen a bydd Sasha Hughes a Philip Hughes, sydd ar secondiad o Bartneriaeth Gymunedol Dyffryn Dyfrdwy yn ymweld â chymaint o sefydliadau â phosibl i gael gwybodaeth fwy manwl. Bydd adroddiad sylfaenol o'r economi cymdeithasol sy'n bodoli eisoes yn Wrecsam ar gael i bawb sy'n dymuno copi yn dilyn ail ran yr ymarferiad.

Bydd pecyn gwybodaeth am entrepreneuriaeth cymdeithasol ar gael yn rhad ac am ddim i unrhyw grŵp cymdeithasol erbyn canol 2005.

Cynhelir diwrnodau hyfforddi menter gymdeithasol ym Mharc Menter y Bers. Bwriedir y rhain yn arbennig ar gyfer y sector gwirfoddol a byddant yn ymwneud â phynciau megis strwythurau cyfreithiol priodol a chynllunio busnes. Darperir manylion drwy Rhwydwaith Mentrau Cymdeithasol Wrecsam cyn gynted ag y cadarnheir dyddiadau'r diwrnodau hyfforddi.

Bydd Rhwydwaith Mentrau Cymdeithasol Wrecsam (RhMCW) yn cyfarfod bob chwarter a bydd newyddlen a diweddariad ar yr e-bost bob yn ail â'r cyfarfodydd. Anogwyd aelodau mewn trafodaeth anffurfiol i roi gwybod am yr hyn yr oeddent am i'r rhwydwaith ei gynnig ac amrywiodd y syniadau o siaradwyr gwadd am faterion megis iechyd a diogelwch a rheoliadau cymorth gan y wladwriaeth i weithdai am archwiliadau cymdeithasol. Bydd RhMCW yn ceisio cynnwys pob un o'r agweddau y gwnaed cais amdanynt yn ystod y 18 mis nesaf.

Roedd pawb a oedd yn bresennol yn teimlo bod y digwyddiadau'n gyfle ardderchog i rwydweithio â grwpiau sy'n chwilio am gynaliadwyedd yn yr hirdymor ac yn wynebu'r un problemau er gwaethaf amrywiaeth y sector.

Pwysleisiodd Nicola Millar, Rheolwr Economi Cymdeithasol Wrecsam ei bod yn bwysig bod sefydliadau yn mynychu'r rhwydwaith ac yn cwblhau'r gwaith papur angenrheidiol er mwyn galluogi'r Tîm Economi Cymdeithasol i brofi bod angen cefnogaeth benodol ar fentrau cymdeithasol yn yr ardal. Mae'r tîm am sicrhau bod y sefydliadau sy'n fodlon peidio â dibynnu'n gyfan gwbl ar grantiau gan ystyried dulliau o gynhyrchu incwm masnachol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd yn yr hirdymor yn cael y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd i wneud hynny.

Bu i Mike Metcalfe, Swyddog Cyllid a Chyngor AVOW, sôn am yr agwedd bwysicaf i fentrau cymdeithasol a sefydliadau cymdeithasol sef cyllid.

Yn sgil y gystadleuaeth gynyddol am arian y Loteri sy'n prinhau, y cyfyngiadau llymach ar ymddiriedolaethau elusennol sydd nawr yn ariannu elusennau'n unig a'r ansicrwydd am gyllid o Ewrop ar ôl 2006, mae gwir angen i'r sector ystyried dulliau i gynhyrchu incwm o leiaf yn rhannol drwy fasnachu nwyddau a gwasanaethau.

Aeth Mike ymlaen i drafod y mentrau cyllid Ewropeaidd, statudol a lleol sydd ar gael gan gynnwys y canlynol:

- Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol 2004-2007
- Cronfa'r Loteri Fawr
- Ymddiriedolaeth Esmee Fairbairn
- Ymddiriedolaeth Gulbenkian
- Ymddiriedolaeth Lloyds TSB
- Rhwydwaith yr Ymddiriedolaeth Gymunedol
- Cronfa Peryglon Cymdeithasol WCVA

Mae'r rhaglenni lleol presennol yn cynnwys:

Cronfa Allweddol Gorllewin Wrecsam - Gall mentrau cymdeithasol wneud cais a bydd prosiectau yn amrywio o £500-£14,700. Rhoddir grantiau o 68% a rhaid i'r prosiectau fod er budd pobl o orllewin Wrecsam.

Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol – Cynigir grantiau ar gyfer datblygu gallu i fudiadau gwirfoddol / cymunedol sy'n gweithredu yng ngorllewin Wrecsam. Rhoddir grantiau o hyd at £10,000. Nid oes angen arian cyfatebol.

Cronfa Grantiau Bychain AVOW/Kellogs - Rhoddir grantiau o hyd at £250. Gall grwpiau gwirfoddol/cymunedol sy'n gweithredu yn Wrecsam wneud cais. Rhoddir grantiau i hyrwyddo gweithgareddau gwirfoddol gan fudiadau newydd a mudiadau sy'n dod i'r amlwg.

Esboniodd Mike bod cymorth ar gael i sefydliadau drwy'r Tîm Economi Cymdeithasol ac y gallai ef hefyd roi cyngor am gyllid gyda'r meddalwedd Grantfinder sy'n gallu ymchwilio am gyllid penodol. Bydd cyngor hefyd ar gael drwy fwletin newyddion

cyllid a gynhyrchir gan AVOW bob mis. Gall Mike hefyd gynorthwyo i lunio ceisiadau. Gelir cysylltu â Mike yn AVOW ar 01978 317099.

Y siaradwr olaf oedd Trish Maybury o Raglen Dysgu Hawdd NEWI *(NEWI's Easy Learning Programme)*. Dywedodd Trish wrth aelodau RhMCW bod y rhaglen yn fenter ddysgu hyblyg sy'n cydweddu'n berffaith â'r sector mentrau cymdeithasol.

Gall unrhyw sefydliad neu grŵp o bobl (5+ o leiaf) o ogledd ddwyrain Cymru ddefnyddio'r gwasanaethau a'r tri modwl sydd fel a ganlyn:

Modwl 1 – Hawdd yn gyntaf *(Easy First)*
Mae hwn yn sesiwn sy'n para 5 awr y gellir ei rannu un ai'n 5 sesiwn awr yr un, dwy sesiwn 2.5 awr, neu 5 sesiwn wythnosol o awr yr un i ateb anghenion y grŵp. Mae'r modwl yn archwilio'r camau addysgu sydd eu hangen ar y grŵp. Gall fod yn ymarferiad dysgu unigol ynghylch sut i ffurfio pwyllgor rheoli neu fe all fod yn gyfuniad o agweddau megis cynllunio busnes a gwybodaeth ariannol. Mae'r modwl yn rhad ac am ddim.

Modwl 2 – Hawdd eto (*Easy Over)*
Mae hwn yn sesiwn 15 awr ac unwaith eto gellir ei rannu i ateb dibenion y grŵp. Mae'r modwl yn datblygu'r dysgu ac yn llunio'r cwrs o amgylch gofynion penodol y grŵp. Bydd gan y grŵp diwtor arbennig sy'n cydweddu mor agos â phosibl â phersonoliaeth a gweithgareddau'r grŵp. Cost y modwl yw £20.00.

Modwl 3 – Hawdd yn Wir *(Easy in Deed)*
Mae hwn yn sesiwn 30 awr y gellir unwaith eto ei rannu yn ôl gofynion y grŵp. Hwn yw'r cwrs a luniwyd i ddilyn y modwl blaenorol. Cost y modwl yw £40.00

Esboniodd Trish y gellir cynnal y cyrsiau y tu allan i oriau swyddfa arferol er mwyn ystyried anghenion y rheiny sy'n gweithio yn ystod y dydd a gellir eu cynnal yn ystod y penwythnosau hyd yn oed. Gellir achredu neu beidio achredu cyrsiau yn ôl dymuniad y grŵp a gellir gostwng y costau neu eu diddymu mewn rhai amgylchiadau.

Esboniodd Kris Morrison o CRNCA Cyf bod ei sefydliad am gwblhau modwl 1 i archwilio rheoli prosiectau ym mis Ionawr ac roedd safon y gwasanaeth a gynigwyd a'r hyblygrwydd wedi gwneud argraff fawr arni.

Dylai unrhyw un sydd am archwilio dysgu drwy'r rhaglen hon gysylltu â Trish Maybury yn NEWI ar 01978 293588.

Darparwyd cinio er mwyn rhoi cyfle anffurfiol i'r aelodau rwydweithio.

Anfonir newyddlen ym mis Chwefror a chynhelir digwyddiad nesaf RhMCW ym mis Ebrill 2005. Manylion i ddilyn.